CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/01/2026 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Gwynfor Jones | Gruffudd Griffiths | Carys Roberts | Gito Williams | Rhys Llewelyn |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Lleucu Jones a Caren Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – Eitem 4.1
   Pat Humphreys – Eitem 7

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 09/12/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Ebost Côr Cantorion Llŷn – cais am gyfraniad ariannol**
      Penderfyniad: y clerc i gysylltu nôl yn gofyn faint o gyfraniad mae nhw yn ofyn am a'i roi ar agenda mis nesaf.
   2. **Mynwent Morfa Nefyn**
      Derbyniwyd cŵyn bod y torrwr beddi yn parcio ei beiriannau yn y maes parcio yn ystod yr angladd sydd yn amharchus iawn i'r teuluoedd.
      Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo fo yn gofyn iddo beidio a parcio ym meusydd parcio mynwentydd CTN tra mae angladd yn mynd ymlaen.

5. **Sedd Wag Ward Morfa Nefyn –** diweddariad – Clerc
   Cafwyd diweddariad gan y Clerc sef bod hysbysiad cyfethol i fyny yn Siop Siarad ac ar wefan CTN ers dydd Llun hefo dyddiad cau o 6$^{ed}$ Chwefror 2026.

6. **Tendar Cytundeb Llwybrau CTN –** Clerc
   Derbyniwyd un pris ac mae'r aeloadu wedi cael copi ohono cyn y pwyllgor.
   Penderfyniad: cytunodd bawb i dderbyn y pris a cynnig y gytundeb i'r contractwr.
   Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gareth Jones

CYNGOR TREF NEFYN

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/01/2026 am 7yh

7. **Oriau Ychwanegol y Clerc –** diweddariad a oriau y coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo – Clerc
   Yng nghyfarfod mis Rhagfyr pasiwyd nad oedd angen rhoi oriau ychwanegol y clerc fel eitem ar yr agenda ond yn hytrach iddi anfon ei oriau i'r gwasanaeth cyflogau a'i roi yn y rhestr taliadau ar y diwedd, ond iddi gysylltu hefo Un Llais Cymru yn gyntaf i weld os oedd hyn yn iawn i'w wneud. Gan ei fod yn dweud yn ei chytundeb cyflogaeth:' Bydd oriau ychwanegol yn gorfod cael eu cymeradwyo gan y Cyngor' fe fydd yn rhaid eu rhoi ar yr agenda fel eitem i'w phasio bob tro. Mae'r clerc wedi gwneud oriau ychwanegol yn trefnu'r coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo ac wedi anfon cofnod o'i oriau i'r aelodau.
   Penderfyniad: pasiwyd i dalu'r clerc.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

8. **Tap Dŵr Mynwent Edern –** Gito Williams
   Nid yw aelod Edern wedi cael mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn felly mae'r Clerc am wneud ymholiadau erbyn y pwyllgor nesaf.

9. **Llwybr o Lôn Rhos i Bryn Meirion Edern –** Gito Williams
   Mae tyfiant o ddrain duon ar hyd y llwybr ac mae yna lawer o blant yr ysgol yn ei ddefnyddio.
   Penderfynaid: mae aelod lleol Morfa Nefyn ac Edern am fynd ar ôl Cyngor Gwynedd i'w dorri.

10. **Llwybr Penrallt Nefyn a Llwybr at Gorsaf Bâd Achub Porthdinllaen – diweddariad –** Gruffydd Williams a Gareth Jones
    Cafwyd diweddariad ynglŷn â'r ddau lwybr yma. Fe fydd yn rhaid aros i'r tir sadio ar ôl y tirlithriad cyn gwneud penderfyniad ar Llwybr Penrallt Nefyn ac mae Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Colin Jones Rock Engineering mewn trafodaethau ynglŷn â Llwybr at Gorsaf y Bâd Achub Porthdinllaen. Fe fydd diweddariad yn cael ei roi ar y ddau lwybr yma eto mis nesaf.
    Mae'r arwydd o flaen Llwybr Tŷ Coch am gael ei dynnu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac maent am roi arwydd newydd yn ei le yn dweud bod y llwybr ar agor.

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    Dim.

12. **Ceisiadau Cynllunio**
    Dim.

13. **Ceisiadau Diweddarach**
    1. **C25/0944/42/AM -** Glanfa Lôn Tyn Y Mur, Morfa Nefyn - Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ol i godi ty preswyl deulawr ar rhan segur o lain dwbl gwreiddiol.

CYNGOR TREF NEFYN



Penderfyniad: gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â defnydd yr eiddo newydd ac anfon y wybodaeth i'r aelodau ar ebost a'r aelodau ymateb yn ôl hefo sylwadau cyn i'r 21 diwrnod ddod i ben.

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1831.20 (taliad Bacs) yn cynnwys oriau ychwanegol a awdurdodwyd mis diwethaf.
- Celtic Heritage Construction & Stonemasonry Ltd – trwsio'r bollard wrth y Gôf Golofn - £2605.20
- HMRC – PAYE mis 9 - £396.05
- Ashley Hughes – offer swyddfa a printer newydd - £237.15
- G Williams Ffensio Cyf – gosod arwydd llwybr Waun - £140.28
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Edern, pumed a chweched taliad mynwent Nefyn a gwaith ychwanegol - £2610.00
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Rhagfyr - £166.55
- John Gwynfor Jones – agor bedd Mrs Rosemary Donoghue a Jill Mary Hughes - £1200.00
- Proludic – 2 sêt swing newydd i Parc y Ddôl - £316.02 (cyfrif Bryn Mynach)

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Rhys Llewelyn Eilio: Catrin Roberts

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – arian grant AHNE - £11450.00
- Ifan Hughes – angladd Maldwyn Robert Williams - £1100.00
- Osian Williams – rent cae mynwent Nefyn - £150.00
- Steven John (S.J. & S. Wiliams) – coeden nadolig Edern - £275.00
- Clwb Golff Nefyn – coeden nadolig Morfa - £50.00
- Bryn Noddfa – coeden nadolig Morfa - £20.00
- Ifan Hughes – angladd Carys Ann Evans - £1350.00